Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu a Lasarus



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Mair a Martha yn poeni. Roedd eu brawd, Lasarus yn sâl – yn sâl iawn. Gallai farw cyn hir.

Dyma nhw'n anfon am Iesu. Roedd e'n caru'r teulu bach hwn o Bethania.



Pan glywodd Iesu am Lasarus dywedodd wrth ei ddisgyblion, “Nid marwolaeth fydd y diwedd,” ...



... Er bod Iesu filltiroedd i ffwrdd ar y pryd, roedd e'n gwybod yn union beth fyddai'n digwydd i Lasarus.



Arhosodd Iesu lle roedd am ddau ddiwrnod cyn gadael am bentref Bethania. Yna dywedodd rywbeth wnaeth achosi penbleth i'w ddisgyblion.

"Mae Lasarus wedi marw. Dw i'n falch fy mod i ddim yno. Dw i eisiau i chi gredu." Beth oedd ystyr y geiriau od hyn? Beth oedd Iesu am ei wneud?

Pan gyrhaeddodd Iesu, roedd Lasarus wedi ei gladdu
ers pedwar diwrnod.

Cafodd
ei gorff ei
lapio mewn
stribedi o liain
a'i roi mewn
bedd.
Ogof oedd
y bedd.

Aeth Martha i gyfarfod Iesu.
"Bydd dy frawd yn dod yn ôl yn fyw,"
meddai Iesu.

“Dw i’n gwybod y bydd yn dod yn ôl yn fyw adeg yr atgyfodiad ar y dydd olaf,” atebodd Martha.

Roedd hi'n meddwl bod angen iddi aros tan ddiwedd y byd cyn gweld Lasarus eto. Ond nid dyna oedd gan Iesu mewn golwg.

“Fi ydy’r atgyfodiad
a’r bywyd,”
dywedodd Iesu
wrth Martha.
“Bydd pawb sy’n
credu ynof
fi yn dod
yn fyw, er
iddyn nhw
farw.”



Roedd Martha yn credu geiriau Iesu. Roedd hi'n gwybod mai Iesu oedd Mab Duw. Ond sut allai e helpu Lasarus?

Roedd pawb yn drist bod Lasarus wedi marw. Roedd ei chwaer, Mair, yn llefain.



Felly hefyd y ffrindiau oedd yn ceisio ei chysuro. Roedd Iesu hefyd yn ei ddagrau.



Aeth Iesu gyda'r bobl
at y bedd. Roedd
carreg fawr
yn cau
ceg yr
ogof.

"Symudwch
y garreg,"
gorchmynnodd
Iesu.

Atebodd Martha, "Arglwydd, bydd yn drewi erbyn hyn, mae wedi'i gladdu ers pedwar diwrnod."

Ar orchymyn Iesu, dyma nhw'n symud y garreg. Yna fe wnaeth Iesu weddïo ar ei Dad yn y nefoedd.

Roedd
Iesu ar fin
gwneud gwyrth
mor fawr,
byddai pobl yn
gwybod fod Duw
wedi ei anfon
i'r byd.

"Lasarus!" gwaeddodd Iesu. "Tyrd allan!" Mae'n siŵr fod y bobl wedi syllu ar yr ogof mewn syndod.

Fyddai
Iesu'n gallu
gwneud i ddyn
marw ddod
yn ôl yn fyw?


BYDDAI! Daeth Lasarus allan o'r ogof, wedi ei lapio mewn stribedi o liain - YN FYW!

“Tynnwch y stribedi,”
dywedodd Iesu.
“Gollyngwch e’n
rhydd.”


Dyna hapusrwydd! Roedd y dagrau wedi troi yn chwerthin. Roedd Iesu wedi cadw at ei air.

Roedd Lasarus yn fyw eto.
Dim ond Mab Duw fyddai'n gallu rhoi bywyd yn ôl i berson marw.

Daeth llawer o'r bobl oedd wedi gweld y wyrth i gredu yn Iesu. Ond aeth rhai at elynion Iesu, arweinwyr y Deml.



Roedden nhw'n genfigennus a dyma nhw'n cynllwynio i ladd Iesu. Ar ôl i Iesu glywed hyn, aeth i ffwrdd am ychydig.

Iesu a Lasarus

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 11

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16